

Polisi Cyfle Cyfartal 2014/15

Rhagair

Mae'r nod o gydraddoldeb yn gonglfaen i nod a chenhadaeth yr ysgol, ac mae'r polisi hwn yn cefnogi'r nod hwn trwy holl weithgareddau'r ysgol. Hyrwyddir cydraddoldeb rhywiol a hiliol yma ar bob achlysur.

1 Staffio

Ceir datganiad Cyfle Cyfartal o fewn Polisi Cyflogaeth yr ysgol fel y ganlyn:

“Mae Corff Llywodraethol Ysgol Dyffryn Nantlle yn ymwybodol o ddeddfwriaeth Cyfle Cyfartal a'r angen i weithredu oddi mewn iddi ym mhob mater yn ymwneud â staffio. Wrth weithredu'r polisi hwn, bydd y Bwrdd yn sicrhau na fydd un cyflogai nac ymgeisydd yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail rhyw, statws priodasol, amgylchiadau teuluol, crefydd, hil, lliw, cenedl, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol neu anabledd.”

2 Cwricwlwm

Ymfalchïa Ysgol Dyffryn Nantlle yn y cwricwlwm eang, cytbwys, chyfoethog a pherthnasol a gynigir i bob disgybl unigol. Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 yn rhoi dyletswydd ar ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Mae'r ysgol yn ceisio sicrhau ein bod yn:

- dileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon;
- hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol.

Mae'r cwricwlwm ysgol yn rhoi cyfle i wireddu'r amcanion hyn. Ceir cyfleoedd penodol o fewn y cynllun Addysg Bersonol a Chymdeithasol, trwy fewnbwn Swyddogion yr Heddlu i ABaCh a thrwy gyfleoedd o fewn pynciau eraill e.e. Hanes, Saesneg ac Ieithoedd Modern.

3 Disgyblaeth

Disgwylir y safonau uchaf oddi wrth ddisgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle oddi mewn ac oddi allan i'r gwersi, ar safle'r ysgol ac oddi arno. Disgwylir i ddisgyblion ddangos parch a chwarteisi at bawb, boed staff, cyd-ddisgyblion neu ymwelwyr i'r ysgol.

Mae Polisi Gwrth Fwlio'r ysgol yn gosod disgwyliadau am ymddygiad tuag at eraill ac yn amlinellu camau disgyblu os ceir bwllian o unrhyw fath. Nid yw ymddygiad hiliol neu rywiaethol yn dderbyniol o dan unrhyw amgylchiadau. Pe bai bwllian am resymau hiliol neu ymddygiad gwahaniaethol ar sail rhyw neu rywioldeb yn digwydd, bydd camau priodol yn cael ei gymryd yn unol â'r Polisi Disgyblaeth.

4 Monitro

Nid yw Ysgol Dyffryn Nantlle yn gwahaniaethu ar sail crefydd, hil, lliw, cenedl, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol neu anabledd wrth dderbyn disgyblion. Niferoedd bychan iawn o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig sydd yn yr ysgol. Cânt yr un cyfleoedd addysgol ag unrhyw ddisgybl arall a byddwn yn eu monitro i sicrhau eu bod yn cyflawni cystal â'u cyfoedion.